

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 8fed Mai 2018 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Einir Coates	
Gruff John	Nerys John	
Iestyn Harris	Eifion Williams	
Aled Emyr		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	Ymddiheuriadau: Casi Roberts, Mair Bebb Jones	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
2.1	Gwahoddwyd y Cynghorydd Sir i gyfarch y Cyngor: adroddodd y Cynghorydd Sir y diweddaraf am Lwybr yr arfordir; gobeithir bydd yn agored diwedd Mai i ddechrau mis	
202	Fe adroddwyd hefyd bod Clybiau Ieuencid yn lefel Sirol yn parhau.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog ariannol yr adroddiad ar gyfer Mis Ebrill 2018. Derbyniwyd y gwariant. Cynigwyd ac eiliwyd hwy fel rhai cywir.	SWYDDOG ARIANNOL
4.2	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod Adroddiad Blyneddol ar gyfer BDO wedi ei chwblhau, Bydd angen ei chyflwyno erbyn 9fed o Fehefin 2018 wedi iddi dderbyn archwiliad gan Luned Fon Jones o Gyngor Gwynedd. Llofnodwyd Adran 2 o'r Adroddiad gan y Cadeirydd.	SWYDDOG ARIANNOL
4.3	Rhoddodd y Swyddog Ariannol adroddiad ar lafar yn dilyn noson gwybodaeth ynglŷn â'r GDPR; roedd y Clerc wedi methu mynychu oherwydd salwch. ddeddf yn dod i fodolaeth ar y 25 o Fai 2018. Mae camau i'w cymryd ar gyfer cyd-fynd a'r rheoliadau. Un o rheiny yw ymaelodi a'r Information Commissioners Office. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi ymaelodi ac yn talu ffioedd yn flynyddol. Ar hyn o bryd mae yn ofynnol i Gynghorau gael Swyddog diogelu gwybodaeth a ni chaniateir Clerc y Cyngor i wneud hynny. Gall Clerc Gyngor Cymuned arall fod neu Swyddog Priodol arall. Mae gwelliant i'r ddeddf wedi ei roi ymlaen i esgusodi Cynghorau Cymuned a Threfi o gael Swyddog. Bydd rhaid creu polisi. Mae NALC wedi creu "toolkit" ar gyfer hyn, roedd y Cynghorydd Iestyn Harris yn barod i edrych ar y toolkit i sicrhau pa ran fyddai yn briodol ar	CLERC/IH

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	gyfer y Cyngor. Y Clerc i anfon copi electronig i'r Cynghorydd.	
4.4	Cadarnhawyd bod y Cynghorydd Casi Roberts I gael arwyddo sieciau, mae angen gwneud y gwaith papur er mwyn I hyn ddigwydd.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill fel rhai cywir. Llofnodwyd i ddatgan hynny	
6.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD	
6.1	Adroddwyd bod gwaith wedi ei gwblhau ar y neuadd, sef y precinium arch, golau, coed o dan y blinds a bod y darganfyddion tan wedi eu gosod yn y lleoliadau cywir.	
6.2	Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn y "Roll of Honour" o Eglwys Fair gan Len Williams, Is-bwyllgor y Neuadd i benderfynu lleoliad ar ei gyfer.	DW
6.3	Mae rhestr waith ar gyfer y neuadd gan gynnwys trwsio'r ffenestri, creu porch. Bydd angen mynd allan i gael prisiau.	DW
6.4	Mae angen cadarnhau defnyddwyr a chyfnodau defnyddir y Neuadd er mwyn hysbysu'r cyfnodau sydd yn Rhydd.	DW
6.5	Adroddodd y Cadeirydd ar y cyfarfod diweddar i drafod prisiau defnyddio'r neuadd: penderfynwyd ar y canlynol am y tro. Gobeithir cadarnhau mewn cyfarfod ar y 5ed o Fehefin 2018. Bydd amodau, prisiau a Gwydnwch Cymunedol yn cael eu trafod. Defnydd o'r neuadd fesul awr - £10 Parti Pen-blwydd Plant - £30 Priodas - £200 Parti Oedolion - £100 Achlysur Elusennol - £30 lleiafswm Digwyddiad 1 diwrnod - £100 Paratodau ar nos Wener - £30 Disgwylir bod y neuadd yn lan erbyn hanner dydd ar ddydd Sul - bydd taliad yn ddyladwy ar ôl yr amser hwn. Bydd allwedd yn cael ei roi i ddefnyddwyr sydd yn defnyddio'r neuadd am ddyddiad lle bydd angen agor a chau parhaus. Deposit - £100.	DW
7.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
7.1	Dywedodd y Clerc bod Menter Fachwen wedi bod mewn cysylltiad â bod angen cyfathrebu i sicrhau cytundeb ysgrifenedig ar wasanaeth i'r potiau blodau dros y tymhorau.	CLERC
8.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
8.1	C18/0250/20/CT – torri coeden pinwydden yr alban mewn ardal cadwraeth – Port Church	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	House, Y Felinheli LL56 4JY – DIM GWRTHWYNEBIAD	
8.2	C18/0315/20/LL – estuniad i ardal barcio i ffurfio modurdy gyda theras palmantog drosodd – 12 Trem y Foel, y Felinheli LL56 4UZ – DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC
9.0	ADRODDIAD Y FYNWENT	
	Dim adroddiad	
10.0	ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
10.1	Clerc a'r cadeirydd yn sicrhau pryniant y lafant a bydd angen ei blannu pan fydd wedi ei. Y Clerc I sicrhau hysbysu'r aelodau pan fydd y lafant wedi cyrraedd.	CLERC
11.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANAU A MEINCIAU	
11.1	Gwaith dros dro wedi ei wneud i'r ffens llwybr Cerrig yr Afon. Mae'r gwaith angen ei wneud ond nid oes cymaint o frys bellach; prisiau ar gyfer y gwaith ei angen gan gontractwyr. Cynghorydd Eifion Williams yn gweithredu hyn.	EW
11.2	Ymweliad Safle gyda'r contractwr torri gwaïr heb ei wneud eto. Atodlen waith ei angen ar y llwybrau wedi ei ddarparu gan y Cynghorydd Nerys John. Derbyniwyd yr atodlen waith. Bydd y Cynghorydd Nerys John nawr yn gallu trefnu ymweliad safle a derbyn pris am y gwaith.	NJ
11.3	Trafodwyd y mater o finiau baw ci unwaith yn rhagor. Dywedwyd bod modd i bobl ddefnyddio biniau gwastraff cyffredinol ar gyfer baw ci os yw mewn bag. Mae gwaith angen i'w wneud i hysbysu'r cyhoedd. Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod yn gweithio ar brosiect gyda'r Ysgol a Chyngor Gwynedd i ddatblygu tafleuni ar y mater. Angen i aelodau o'r cyhoedd adrodd i gyngor Gwynedd os ydi'r bin yn llawn.	
11.4	Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb gan y Cyngor Sir ynglyn a Tir Lithriad ar y Lon Las. Y Clerc I Gysyllu unwaith yn rhagor a'r Swyddog priodol.	
12.0	ADRODDIAD PRIFYRDD	
12.1	Derbyniodd y Cyngor ddeiseb ynglŷn â pharcio ar Ffordd Gaernarfon ger yr hen fodurdy gan aelod o'r Cyhoedd. Bydd y Cyngor yn anfon y ddeiseb ymlaen i Gyngor Gwynedd oherwydd y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Prifffyrdd. Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi adrodd at y Cyngor Sir ynglyn a Chyflwr ffordd Caernarfon.	
12.2	Trafodwyd torri gwaith o fewn y pentref.	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Roedd cyflwr yr ymylon a thir ar Lan y Môr angen ei dorri nawr. Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn talu am doriad ychwanegol ond yn gyntaf y Clerc i wneud ymholiadau am bris gyda Chyngor Gwynedd.	
12.3	Cafwyd adroddiad bod angen chwynnu a'r Ffordd Penceunant lawr i Garddfon. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.	
12.4	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John ei bod wedi hysbysebu trigolion Ffordd Llwyn a Trem y Foel ar sut i gofrestru cwynion ynglŷn â thyllau yn y ffordd gyda Chyngor Gwynedd drwy eu gwefan. Y Clerc i gyfathrebu a Delwedd i edrych os oes modd rhoi cyfarwyddiadau sut i wneud hyn ar y wefan.	CLERC
13.0	PROSIECTAU	
13.1	<p>Rhodddwyd adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd Nerys John ar y prosiect o gasglu sbwriel. Roedd 30 o oedolion a phlant wedi cymryd rhan y dydd Sul blaenorol. Dywedodd bod y Cynghorydd Sarah Riley wedi derbyn rhifau cyswllt y rhai gymerodd ran a bydd nawr yn gallu anfon atynt. Y bwriad yw creu dau grŵp casglu sbwriel a bod un grŵp yn gweithredu un hanner y pentref un mis a'r grŵp arall yn gweithredu'r hanner arall y mis canlynol; felly bydd sesiwn casglu unwaith pob dau fis i bob grŵp.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd Nerys John y buasai yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn a chael bagiau clir ar gyfer y sbwriel, yna sicrhau ei fod yn cael ei godi gan gwasanaeth Trefi Taclus.</p>	NJ
13.2	Mae sied i gadw offer codi sbwriel angen ei osod tu allan i'r neuadd. Bydd y Cadeirydd yn gofalu bod hyn yn cael ei wneud mor fuan ac sydd bosib.	NJ
13.3	Roedd y Cyngor wedi derbyn cais am ryddid gwybodaeth gan Cwmni Rheolaeth Tregwylan ynglŷn â chynllun gosod llinellau melyn arfaethedig ar Hen Gei Llechi a llythyr pellach ynglŷn â pheidio a chadw i reolau rhyddid gwybodaeth. Rhoddodd y Cadeirydd eglurhad ar yr achos a sicrhau'r Cyngor nad oedd y rheolau wedi eu torri. Dywedodd hefyd ei fod wedi estyn gwahoddiad i'r cwmni i gwrdd â fo i drafod materion a godir yn y dyfodol.	
14.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
	Dim - nid yw Swyddog Eiddo Cyngor Gwynedd wedi dod yn ôl ar y mater. Bydd y Cynghorydd	GG

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Sir yn dilyn y mater hwn i fyny.	
15.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
15.1	Mae gwaith yn parhau ar y mater hwn a bydd y cynllun drafft yn cael ei ddiweddarau yn y cyfarfod mis Mehefin. Ni does modd rhoi bag tywod ger y neuadd oherwydd nid oes modd i gerbyd gael mynediad. Bydd bag o dywod yn cael ei roi ar dir y Clwb hwylio, mae caniatâd gan y Clwb Hwyllo wedi ei dderbyn gan y Cadeirydd. Mae bagiau tywod rhwng Ffordd Bangor a Cwrt Menai yn parhau i fod ar y ffordd ar ôl y llifogydd. Y Cynghorydd Eifion Williams am eu casglu a'u danfon i'r Clwb Hwyllo. Roedd y Cyngor yn gytûn i archebu bag o dywod am £36 & TAW a bagiau am 34c yr un.	DW/EW
16.0	GWEFAN	
	Angen symud ymlaen a hyfforddiant i ddefnyddio scribe.	CLERC
17.0	MATERION AMRYWIOL	
17.3	Cyngor Gwynedd – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Ffioedd Claddu Plant – nid yw'r Cyngor hwn wedi codi am gladdedigaeth plenty felly yn cydymffurfio a'r memorandwm.	
17.4	HM Land Registry Leicester Office - Oaklands, Penybryn Road, Y Felinheli LL56 4YG - nid oedd ne bar y Cyngor yn gallu rhoi gwybodaeth i berchnogaeth y tir dan sylw. Y Clerc i anfon y wybodaeth hon ymlaen.	CLERC
17.5	Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2018 - nid oedd y Cyngor yn teimlo bod y Cyngor mewn sefyllfa i gymryd rhan tro yma. Y Mater i gael ei drafod yng nghyfarfod mis Rhagfyr ar gyfer y flwyddyn nesaf.	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:55	
Llofnod:		Dyddiad: